


Teithiau Byr



- ● ● ● Llwybr Cylch
- ■ ■ ■ Llwybrau Cyhoeddus
- Maes Parcio
- Toileddau Cyhoeddus
- Safle Bws
- Oriol y Parc



Hanesyddol Tyddewi

Teithiau Byr

Hyd: 45 munud

Pellter: 1.3 milltir (2.1 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Tyddewi 411, *Pâl Gwibio 400, *Celtic Coaster 403, *Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a theithio).

Cyfeirnod map: SM753252

Mae'r daith gerdded 1.3 milltir hon, sy'n dechrau ac yn gorffen yn Oriel y Parc, yn cynnwys un o olygfeydd mwyaf godidog y Parc Cenedlaethol.

Ar ôl cerdded drwy ganol y ddinas fechan hon, mae'r olygfa rydych chi'n ei gweld o giât yr eglwys gadeiriol yn drawiadol, gyda'r eglwys ei hun yn cuddio yn y cwm isod a gallwch weld amlinelliad o Benmaendewi a Charn Llidi i'r gorllewin.

Mae'r rhan fwyaf o eglwysi cadeiriol yn tra-arglwyddiaethu ar yr ardal o'u cwrmpas, ond adeiladwyd eglwys gadeiriol Tyddewi mewn cwm ar safle cymuned Gristnogol Dewi.

Mae Tyddewi yn lle rhyfeddol ac mae tua 200 o adeiladau rhestredig yno, gan gynnwys yr eglwys gadeiriol a Llys yr Esgob. Yn y gorffennol, roedd yn cael ei galw'n ddinas oherwydd bod eglwys gadeiriol yno, ond dim ond ers 1995 y mae'r bobl leol wedi cael galw eu cymuned yn ddinas yn swyddogol.

Mae'r llwybr hwn yn mynd â chi ar hyd Clos y Gadeirlan, lle gallwch weld gwartheg a defaid yn pori er mwyn helpu i ddiogelu'r dirwedd hynafol hon.

Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer Sir Benfro ac mae'n gweithio'n galed i ddiogelu cymeriad arbennig yr ardal. Ar y daith gerdded hon yn Nhyddewi, byddwch yn mynd heibio i nifer o enghreifftiau o hen adeiladau sydd wedi cael eu hadfer yn ystyriol, yn ogystal â rhai newydd sydd wedi cael eu hadeiladu yn yr arddull frodorol.

Cadwch lygad am adeilad yr hen ysgol sydd wedi cael ei droi'n ganolfan i bererinion, tŷ sydd newydd gael ei adeiladu mewn arddull 'Hobbit' chwareus, a thŷ crwn rhestredig mewn arddull Art Deco.

Trowch i'r dde oddi ar Glos y Gadeirlan ar lwybr troed tuag at Dŷ'r Pererin ac ymlaen i'r Cwcell, wedyn trowch i'r chwith a chroesi'r ffordd, a throwch i'r dde yn syth i fynd ar y llwybr troed wrth yr ysgol gynradd at Heol Non. Trowch i'r dde ac wedyn i'r chwith i fyny Feidr Pedr ac yna ar Heol Newydd. Cadwch i'r chwith tuag at yr archfarchnad ac wedyn trowch i'r dde a chroesi'r ffordd wrth y man chwarae ac wedyn i fyny'r lôn/llwybr troed i ymuno â Feidr Glasfryn. Trowch i'r dde a dychwelyd i Oriel y Parc.

Cafodd y gymuned hon ger Afon Alun ei sefydlu gan Dewi yn y 6ed ganrif. Daeth yn fwy pwysig ar ôl ei farwolaeth ac roedd pererinion yn teithio i dalu teyrnged iddo wrth ei gysegrfan am ganrifoedd wedi hynny. Cafodd Dewi ei dderbyn i'r canon yn 1120 pan ddyfarnwyd bod dwy bererindod i gysegrfan y sant gyfystyr ag un bererindod i Rufain.

Gwlad y Chwedlau

Cliciwch ar yr eiconau isod am chwedl leol, neu ewch i www.arfordirpenfro.cymru/chwedlau

